

# Cyngor Trydydd Sector Caerdydd

Eich cyngor gwirfoddol sirol lleol



## 4. Gwirfoddolwyr

### 4.5 Denu gwirfoddolwyr sy'n siarad

#### Cymraeg

Mae'r daflen hon yn ymdrin ag agweddau ymarferol ar ddenu siaradwyr Cymraeg. Gweler hefyd Daflen wybodaeth 4.27 Hyrwyddo'r Gymraeg drwy wirfoddoli, sy'n canolbwyntio ar y ffordd y gall gwirfoddolwyr gynorthwyo'ch mudiad i fod yn fwy dwyieithog yn ei wasanaethau a'i ethos.

Mae Strategaeth iaith Llywodraeth Cymru Cymraeg 2050: <https://llyw.cymru/y-gymraeg> yn rhagweld cynnydd yn nifer y siaradwyr Cymraeg yng Nghymru, gan dargedu 1 miliwn erbyn y flwyddyn 2050.

Trwy ddenu mwy o wirfoddolwyr Cymraeg eu hiaith, gall mudiadau chwarae eu rhan yn y strategaeth genedlaethol hon, drwy gynyddu'r defnydd o'r Gymraeg mewn cyd-destunau cymdeithasol, anffurfiol a thrwy ddarparu mwy o wasanaethau yn ddwyieithog.

Bydd cymorth priodol i wirfoddoli drwy gyfrwng y Gymraeg yn galluogi siaradwyr Cymraeg i ddefnyddio eu dewis iaith, yn ogystal â galluogi eraill i ddysgu a datblygu eu sgiliau iaith.

I ddenu gwirfoddolwyr sy'n siarad Cymraeg mae angen a) creu cyfleoedd atyniadol a b) cyfathrebu'r rhain yn effeithiol, i'r bobl gywir.

#### **a) Creu cyfleoedd i siaradwyr Cymraeg**

- Gallech ddatblygu cyfleoedd sy'n gofyn am sgiliau Cymraeg. Wrth wneud hynny, gwnewch hi'n glir ba lefel rhuglder sydd ei hangen ac a yw hynny ar lafar a/neu'n ysgrifenedig. Er enghraifft, a hoffech rywun i ddatblygu perthynas â chleientiaid drwy gyfrwng y Gymraeg, neu rywun i ddelio gyda gwybodaeth ysgrifenedig yn Gymraeg? Bydd sgiliau, hyder a dyhead gwirfoddolwyr i ddefnyddio eu sgiliau iaith yn amrywio'n fawr.

#### Cofier

- Crefft arbenigol yw cyfieithu ac mae'n well i waith cyfieithu ffurfiol gael ei wneud gan gyfieithwyr cymwys a chyflogedig.
- Mae delio â'r cyfryngau Cymraeg ar ran mudiad yn gyfrifoldeb mawr. Dylai siaradwyr Cymraeg gael yr hyfforddiant a'r gefnogaeth angenrheidiol a chyfarwyddyd llawn cyn gofyn iddynt wneud hynny. Serch hynny, efallai y bydd siaradwyr Cymraeg yn hapus i 'adrodd eu hanes' heb brofiad na hyfforddiant ymlaen llaw.

- Gallech ddatblygu cyfleoedd i wirfoddolwyr Cymraeg ddefnyddio'r iaith â'r cyhoedd, cleientiaid neu staff a gwirfoddolwyr eraill, hyd yn oed os nad yw'n hanfodol i'r rôl. Bydd hyn yn gofyn am greu amgylchedd ffafriol sy'n annog pobl i siarad Cymraeg, er enghraifft, sicrhau bod deunyddiau Cymraeg wrth law ac yn cael eu harddangos a dynodi siaradwyr Cymraeg (drwy'r bathodyn Cymraeg) fel y gall y cyhoedd eu hadnabod. Mae'n golygu meithrin diwylliant lle mae'r defnydd o'r Gymraeg a'r Saesneg yn gyffredin, wrth gyfathrebu'n anffurfiol ac yn fwy ffurfiol. Yn y ffordd hon gallwch roi cyfle i ddysgwyr wella eu sgiliau iaith. Gall rôl sy'n cynnig cyfle i ddefnyddio Cymraeg anffurfiol fod yn gyfle ardderchog i ddysgwyr roi cynnig arni a magu hyder. Gellid annog gwirfoddolwyr mewn digwyddiadau i ddefnyddio cymaint o Gymraeg ag y gallant. Gellir defnyddio cortynnau gwddf 'Dysgwr' (sydd ar gael i'w harchebu, yn rhad ac am ddim, drwy wefan Comisiynydd y Gymraeg gyda'r [brand iaith Gwaith](#)).



## b) Cyrraedd siaradwyr Cymraeg

Mae gwirfoddoli yn rhan draddodiadol o fywyd cymunedau Cymraeg lle mae pobl wedi arfer helpu ei gilydd a chymwynasu eu cymunedau. Yn aml gwneir hyn heb ei alw'n 'wirfoddoli'! Gwelir 'gwirfoddoli' yn aml fel rhywbeth sy'n ymwneud â'r sefydliad a mudiadau ffurfiol.

Gall fod angen i fudiadau fynd ati mewn ffordd wahanol a sensitif i recriwtio gwirfoddolwyr Cymraeg.

- Sicrhewch fod gwirfoddolwyr Cymraeg yn teimlo bod croeso iddynt yn eich mudiad. Gellid datgan hyn yn glir yn eich polisi cyfle cyfartal neu'ch polisi amrywiaeth.
- Bydd delwedd ddwyieithog i'r mudiad yn adlewyrchu ei ymrwymiad i drin y Gymraeg a'r Saesneg yn gyfartal.
- Trwy ddarparu gwybodaeth ddwyieithog, gan ddefnyddio iaith anffurfiol a chyfeillgar, bydd y mudiad yn dangos ei ymrwymiad i gynnig dewis o ran iaith yn fewnol ac yn allanol.
- Defnyddiwch y logo 'iaith gwaith working welsh' ar bob deunydd hyrwyddo.
- Gwnewch eich cysylltiad cyntaf yn Gymraeg, er enghraifft, drwy rwydweithiau a grwpiau Cymraeg, cylchlythyron neu'r cyfryngau cymdeithasol. Rhestr rhai sianeli posib yn adran C.

## c) Cyfathrebu cyfleoedd i wirfoddoli drwy gyfrwng y Gymraeg

### Gwneud cysylltiad personol

Ewch ati i ganfod mudiadau Cymraeg yn eich ardal (mae'n bosibl y bydd y Fenter Iaith leol yn gallu rhoi manylion cysylltu) a gweithiwch gyda nhw i gyrraedd y gymuned Gymraeg, trefnu cyfarfodydd ac arddangosfeydd ac apelio am wirfoddolwyr.

Er enghraifft, gallech gysylltu â rhai o'r canlynol:

- Clybiau Ffermwyr Ifanc
- Urdd Gobaith Cymru (ceir grwpiau lleol ledled Cymru)
- Capeli ac Eglwysi
- Ysgolion lleol (gan gynnwys Cymdeithasau Rhieni/Athrawon)
- Darparwyr Dysgu Cymraeg <https://dysgucymraeg.cymru/amdanom-ni/darparwyr-cyrsiau/>
- Merched y Wawr
- Gwawr
- Mentrau Iaith
- Mudiad Ysgolion Meithrin (ceir grwpiau lleol ledled Cymru)
- Cynghorau gwirfoddol sirol
- Canolfannau gwirfoddoli lleol
- Corau a chymdeithasau Cymraeg
- Eisteddfodau lleol ac is-bwyllgorau i'r Eisteddfodau Cenedlaethol a gwyliau cerdd cenedlaethol (fel yr Ŵyl Gerdd Dant) sy'n ymweld â'r ardal. Pobl leol yw'r is-bwyllgorau.

### Defnyddio'r cyfryngau Cymraeg:

Er enghraifft

- Radio Cymru (gorsaf radio genedlaethol sydd hefyd yn cynnig rhaglenni rhanbarthol ar wahanol adegau yn ystod y diwrnod)
- Slot Gymraeg yr orsaf radio leol
- Colofnau Cymraeg mewn papurau newydd lleol
- Y Papurau Bro misol – Mae gwefan y Lolfa yn hysbysu [rhestr ohonynt](#)
- Cylchgrawn Golwg
- Papur newydd Y Cymro
- Yr Herald Cymraeg (atodiad i'r Daily Post bellach)
- Rhaglenni ar S4C fel Prynhawn Da, Heno a Stwnsh
- Golwg360
- [Lleol.net](#)
- Tudalennau Cymraeg ar Facebook a Twitter, megis [Radio Beca](#), Be sy 'mlaen, [Yr Awr Gymraeg](#) – ar Twitter bob nos Fercher (#yagym)

## Gwefan Gwirfoddoli Cymru: [www.gwirfoddolicymru.net](http://www.gwirfoddolicymru.net)

Mae'r wefan ddwyieithog hon yn cynorthwyo i recriwtio a lleoli gwirfoddolwyr. Mae mudiadau'n hysbysebu cyfleoedd gwirfoddoli i ddarparu wirfoddolwyr allu eu gweld ar eu ffôn, cyfrifiadur neu lechen. Gall gwirfoddolwyr gofrestru yn Gymraeg neu yn Saesneg. Gallant chwilio yn y naill iaith neu'r llall, ond cofiwch mai dim ond cyfleoedd a hysbysebwr yn ddwyieithog a fydd yn chwiliadwy yn y ddwy iaith. Gall gwirfoddolwyr ddefnyddio'r system i gofnodi eu horiau gwirfoddoli a dyfarnir gwobrau digidol i nodi cerrig milltir arbennig (50, 100, 200, 500 a 1000 awr).

Dylid rhoi tag 'Cymraeg' ar gyfleoedd sy'n cynnig y cyfle i siarad Cymraeg fel y byddant yn ymddangos mewn canlyniadau chwilio. Mae'n werth hefyd roi rhagor o wybodaeth yn y disgrifiad, megis "Mae'r rôl hon yn cynnig cyfle i chi ddefnyddio'r Gymraeg yn rheolaidd/achlysurol".

### Pethau eraill i'w hystyried neu eu defnyddio

- Cynnwys o leiaf un dudalen ddwyieithog ar eich gwefan, fel y dudalen flaen.
- Mae disgrifiad enghreifftiol o rôl ar gael yn [Gymraeg](#) ac yn [Saesneg](#) i'w defnyddio fel templed.
- Manteisio ar ddigwyddiadau cenedlaethol fel Wythnos Gwirfoddolwyr (1-7 Mehefin), yr Eisteddfod Genedlaethol (wythnos gyntaf Awst), Sioe Amaethyddol Frenhinol Cymru (ganol Gorffennaf), Eisteddfod Genedlaethol yr Urdd (wythnos Gŵyl y Banc hwyr y gwanwyn), Diwrnod Rhyngwladol y Gwirfoddolwyr (5 Rhagfyr) a threfnwch weithgareddau gweledol a fydd yn denu sylw.
- Defnyddio manau cyhoeddus yn y gymuned i hysbysebu cyfleoedd gwirfoddoli e.e. llyfrgelloedd, ysgolion, meddygfeydd, siopau papurau newydd a chanolfannau gwirfoddolwyr.
- Defnyddio'r cyfryngau cymdeithasol yn effeithiol gan bostio/trydar yn Gymraeg ac yn Saesneg.
- Ystyried postio clipiau fideo arlein o brofiad gwirfoddolwyr presennol i hyrwyddo gwirfoddoli drwy gyfrwng y Gymraeg.

### Recriwtio

- Dylid glynu wrth arferion cyfle cyfartal wrth recriwtio a dethol gwirfoddolwyr Cymraeg a Saesneg eu hiaith.
- Ceisio sicrhau bod gweithiwr cefnogi Cymraeg ar gael i wirfoddolwyr.
- Mae gwirfoddoli'n fater o ddewis a dylai gwirfoddolwyr gael amser a chyfle i ystyried a ydynt am gyflawni'r tasgau a gynigir iddynt. Ni ddylent deimlo eu bod dan orfodaeth i gyflawni tasgau y maent yn eu hystyried yn amhriodol.
- Dylai mudiadau geisio darparu cyrsiau cynefino a hyfforddi drwy gyfrwng y Gymraeg a'r Saesneg os oes angen.
- Efallai y bydd ar wirfoddolwyr Cymraeg angen hyfforddiant i'w galluogi i wneud eu gweithgareddau drwy gyfrwng y Gymraeg, er enghraifft, magu geirfa arbenigol neu sgiliau ysgrifennu.

## Mwy o wybodaeth

I gael mwy o wybodaeth neu ragor o gyngor am arfer da, recriwtio a chynorthwyo gwirfoddolwyr, cysylltwch â'ch canolfan wirfoddoli leol neu'ch cyngor gwirfoddol sirol.

Mae'r [safon Buddsoddi mewn Gwirfoddolwyr](#) yn ei gwneud yn ofynnol i fudiad fod yn agored i gynnwys gwirfoddolwyr o gefndiroedd a galluoedd amrywiol, a darparu'r adnoddau angenrheidiol (Dangosydd 3.1)

Gweler y Taflenni gwybodaeth [2.10 Yr Iaith Gymraeg – Cyd-destun Cyfreithiol](#)  
[4.27 Hyrwyddo'r Gymraeg drwy wirfoddoli](#)

### Mentrau Iaith

<http://www.mentrau-iaith.com/>

### Comisiynydd y Gymraeg


[www.comisiynyddygyymraeg.cymru](http://www.comisiynyddygyymraeg.cymru)

Gweler ymchwil ddiweddar gan y Comisiynydd - '[Y Gymraeg a gwirfoddoli](#)' 2014

### Ymwadiad

Mae'r wybodaeth a ddarperir yn y daflen hon ar gyfer cyfarwyddyd yn unig. Nid yw'n amnewid am gyngor proffesiynol ac ni allwn dderbyn unrhyw gyfrifoldeb am golled o ganlyniad i unrhyw berson weithredu neu wrthod gweithredu arno.

### Am rhagor o wybodaeth cysylltwch â

<p><b>Cyngor Trydydd Sector Caerdydd</b> <i>Tŷ Baltic, Sgwâr Mount Stuart, Caerdydd, CF10 5FH</i> <b>Elusen Gofrestredig: 1068623</b></p> <p><b>Ffôn:</b> 029 2048 5722                      <a href="mailto:enquiries@c3sc.org.uk">enquiries@c3sc.org.uk</a> <b>Ffacs:</b> 029 2046 4196                      <a href="http://www.c3sc.org.uk">www.c3sc.org.uk</a></p> <p>Cynhyrchwyd gan CGGC, Cynghorau Gwirfoddol Sirol a Chanolfannau Gwirfoddoli <b>Wedi ei ddiweddarau:</b> 16/07/2019</p>	 <p>Ffôn: 0300 111 0124 <a href="http://www.wcva.cymru">www.wcva.cymru</a></p>
---	---